




# Llwybr Clogau, Afon Mawddach

CYMEDROL



## Trosolwg o'r Daith

-  Pellter: 6.5km (4 milltir)
-  Hyd: 3 awr
-  Math o daith: Cylchdaith

## Cyn i chi gychwyn

Darllenwch y wybodaeth diogelwch a graddio llwybrau ar wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri cyn i chi gychwyn ar eich taith.

[eryri.llyw.cymru](http://eryri.llyw.cymru)







O'r gilfan, croeswch y ffordd yn ofalus a cherddwch i gyfeiriad Dolgellau. Trowch lawr am yr afon Fawddach wrth yr arwydd llwybr cyhoeddus tuag at dŷ o'r enw Rhuddallt. Ewch i'r chwith o flaen y tŷ trwy giât fechan i gyfeiriad yr afon.



Ar waelod y llwybr ewch i'r dde trwy'r giât a pharhau i gerdded ar hyd yr aber gan fynd trwy giât arall a dilyn y clawdd llanw. Croeswch y bont dros y ffos ac ewch ymlaen nes cyrraedd afon Cwm Llechen sy'n llifo drwy'r pentref.



Ewch drwy giât fechan a chadwch i'r chwith gan ddilyn yr afon ac ymuno â'r lôn i fyny am bentref Bontddu. Wrth gyrraedd y ffordd fawr, croeswch y ffordd a throwch i'r chwith. Cerddwch lawr i waelod y pentref, heibio rheiliau metel am 50m nes gweld arwydd 'Dim Ffordd Trwodd' a 'WC'. Dilynwch y llwybr tarmac serth hwn i fyny i'r dde heibio'r rhes o dai.



Cymerwch ofal yn fan hyn! Mae'r ceunant yn serth a llif yr afon yn gryf. Cadwch ar y llwybr dan gysgod y coed derw. Fe ddowch yn y man at bont Ffira. Sylwch ar olion yr hen waith trin mwyn. Cerddwch dros y bont, ewch drwy giât a cherddwch ymlaen ar y trac.




Ewch drwy'r giât a bydd fforch yn y llwybr, ewch i'r chwith o gwmpas y cae.




Ar ôl mynd drwy'r giât mochyn, cerddwch i'r dde a dilyn y ffordd tuag at Llechfraith Isaf.



Yn syth heibio'r tŷ mae giât fetel i'r chwith. Ewch drwyddi.



Mae'r llwybr hwn yn codi'n raddol at hen waith aur y Clogau. Ewch heibio'r tomennydd rwbel, gan anelu at y cwm nesaf, sef Cwm Mynach.



Ar ôl cerdded ar yr hen inclein byddwch yn cyrraedd fforch yn y llwybr, ewch i'r chwith gan fynd drwy fwch yn y wal. Cerddwch i'r chwith ac ymlaen drwy'r tir corsiog gan gadw'r wal yn eithaf agos atoch ar y dde, byddwch yn cyrraedd arwyddbost yng nghanol cae pori mynyddig.



10  
O'r arwyddbost, cerddwch i lawr am y wal, trwy giât ac i lawr at dŷ Garth Gell. O'ch blaen mae mynydd y Garn, a'r Diffwys ar y chwith.




11  
Parhewch ymlaen i lawr ar hyd y trac gan fynd i'r dde heibio wyneb y tŷ a thrwy'r giât. Llwybr caniatool yw'r darn hwn a cheir caniatâd ar yr amod nad oes unrhyw un yn aflonyddu ar y stoc. Gofynnwn i chi gadw eich ci ar dennyn yn fan hyn a lle bynnag y bo anifeiliaid yn pori.



12  
Fe ddowch at dro pedol ar y llwybr hwn. O'ch blaen fe welwch giât mochyn, Ewch trwy'r giât, trowch i'r dde a cherded i fyny'r llethr at y tir coediog lle mae giât yn eich arwain i Warchodfa Natur Coed Garth Gell.



13  
Mae'r llwybr yn eich tywys trwy'r warchodfa lle mae golygfeydd ysblennydd i'w cael o aber yr afon Fawddach, Cader Idris, Aran Fawddwy, Aran Benllyn a'r Rhobell Fawr. Parhewch i ddilyn y llwybr a cyn hir fe fydd giât fechan yn y wal ar y dde.



14  
Ar ôl dilyn y llwybr i lawr, fe ddowch at ffordd amlwg. Cadwch i'r dde gan barhau'n raddol i lawr drwy'r coed. Byddwch yn mynd heibio corlannau newydd sy'n rhan o gynllun pori'r RSPB. Ewch drwy'r giât a dilyn y llwybr. Mae giât yn y wal ar y chwith, ewch trwyddi gan droi i'r dde ar y ffordd darmac sydd yn arwain yn ôl i lawr i'r maes parcio.